

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
4 Rhagfyr 2023 yn Festri Capel, Llangeitho am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
4 December 2023 at Llangeitho Chapel Vestry at 8.00pm

Cydymdeimlwyd a'r Clerc Mrs Heulwen Bulman â'r Cyng Gerwyn Ebenezer yn eu profedigaeth diweddar.
Sympathy was expressed to Mrs Heulwen Bulman (Clerk) and Cllr Gerwyn Ebenezer following their recent bereavement.

Presennol/Present

Cyng/Cllr Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Sarah Evans, Gwilym Evans, Daniel Thomas, Beryl Evans, Dafydd Morse, Paul Rooke (Gadael am 9.15 o'r gloch), Ieuan Gwynne, Myrddin James, Emyr Jones & Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Gerwyn Ebenezer.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd adroddiad dros y ddau fis diwethaf gan yr Heddlu. Soniwyd bod hi'n gyfnod codi ymwybyddiaeth unigrwydd a dioddef camdriaeth domestig, derbyniwyd posteri i'w harddangos. Gofynnir i'r heddlu a oes modd iddynt gwneud ei hunain yn fwy amlwg yn yr ardal, gan fod y mater o fandaleiddio'r arwyddion 20mya yn peri gofid yn y gymuned. Soniwyd bod angen presenoldeb yr heddlu mewn amserau pan fyddai'r ciniawau misol yn y gymuned, ynghyd a gweithgareddau eraill.

A report was received covering the last two months. It was noted that it was loneliness awareness week and domestic abuse month, posters were to be distributed. The police were asked if they could be more visible in the area and that the recent vandalism of the new 20mph signs was of concern to the community. It was suggested that the police could be in the community during the luncheons in the hall/café, and other local activities.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Hydref yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Sarah Evans.
The minutes for the October meeting were agreed as being correct by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Sarah Evans.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cyng Gwilym Evans wedi ymweld a pherchennog yr Hungry Ram i drafod rhoi'r bocs lan ar wal yr Hungry Ram cyn ddiwedd Rhagfyr 2023, heb drydan am nawr. Aros tan ddiwedd y flwyddyn cyn ymweld a'r perchennog am diweddariad. Soniwyd nad oedd trydan yn mynd mewn i bocs diffib yn Llanfarian na Rhydyfelin, Aberystwyth ond bod trydan yn Lledrod a un Bronant.
Cllr Gwilym Evans had spoken to the owner of the Hungry Ram to discuss the installation of the defibrillator box on the wall of the establishment. It was noted that the defibrillator boxes at Llanfarian and Rhydyfelin Aberystwyth didn't have an electrical supply but the ones in Lledrod and Bronant did.
- Anfonwyd linc i'r Clerc o gwefan BHF ar gyfer ymgeisio am grant i gael peiriant Diffib yn Rhydypany.
The Clerk has received a link from the BHF website in order to apply for a grant for the defibrillator at Rhydypany.
- Peiriant diffib newydd wedi cyrraedd cyfeiriad y Clerc ar gyfer ei ddodi yn Garej Stags Head.
The new defibrillator to be located at Stags Head Garage had been delivered to the Clerk.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans.
- *BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.*
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir.
Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.
- Y Bocs grit/halen newydd oedd i'w leoli ar y ffordd i Llyn Fanod dal heb cyrraedd y lleoliad.
The new grit/salt box to be located on the road to Llyn Fanod still not in place.
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffordd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn.
The results of the speed lines place within the community had not been received.

- Cwmni BT dal yn disgwyl cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth perchennog daear oddi tan ciosg BT Rhydypany, cytunwyd i drafftio llythyr o gadarnhad i'r perchennog gael darllen, cymeradwyo'r geiriad a'i arwyddo.
- Perchennog ffens y parc dal heb gwblhau codi'r ffens.
The park fence had not been repaired by the owner.
- Cyngorwyr Daniel Thomas & Myrddin James yn bwriadu ymgymryd a'r gwaith o thrimio'r goeden gelyn yn y parc yn ystod yr wythnos i ddod.
Cllrs Daniel Thomas and Myrddin James intend to undertake the work of trimming the holly tree in the park in the coming week.
- Cwblhawyd holiadur y Comisiwn Ffiniau cyn ddiwedd mis Medi.
The Boundaries Commission questionnaire was completed before the end of September
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Huw Davies ar ran henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, cadarnhad bod mynwent Capel Llwynpiod wedi cael ei drosglwyddo i ofal Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro o'r Methodistiaid a bod angen i'r ymgymwrwr gysylltu gyda'r Henaduriaeth am yr hawl i gladdu yn y fynwent, a chodi tâl i gladdu mewn unrhyw fynwent sydd o dan ofal yr Henaduriaeth. Siomedig bod yn rhaid i aelod o'r teulu sy'n dymuno cael ei gladdu gyda'i anwyliaid dderbyn caniatâd a chodi tal i'r Henaduriaeth yn arbennig os oeddent wedi bod yn aelodau yng Nghapel Llwynpiod a wedi gorfod trosglwyddo aelodaeth i gapel arall. Oherwydd y drefn newydd ni fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad ariannol i dalu am cynnal a chadw'r mynwent. Soniwyd bod mwsogl ar y ffordd o'r glwyd i fyny tuag at y mynwent, Clerc i anfon llythyr i Parch Carwyn Arthur, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth Ceredigion & Gogledd Penfro.
An email was received from Huw Davies on behalf of the Ceredigion and North Pembrokeshire Presbytery, confirming that the cemetery at Llwynpiod Chapel had been transferred to the care of the Presbytery and that anyone wishing to be buried there would have to contact the Presbytery for permission and that a fee is charged for anyone wishing to be buried in a cemetery in the care of the Presbytery. It was disappointing to understand that a fee would be charged for those wishing to be buried with other members of the family especially if they were previous member of Llwynpiod Chapel and had transferred their membership to another chapel. In view of the new order, the Community Council would not be making a financial contribution to the cemetery fund. It was noted that the path leading to the graves was dangerous because of moss growth. The Clerk to write to the Rev Carwyn Arthur, Secretary of the Ceredigion and North Pembrokeshire Presbytery.
- Angen gwneud mwy o ymchwil i hanes yr hen cysgodfan bws, Tro Pair, Cyng Rhodri Evans i ymchwilio ar berchnogaeth y cysgodfan a chysylltu a Mr Dai Stephens a fu'n gwneud gwaith ar yr adeilad yn y gorffennol. Gofynnir i'r Clerc gysylltu a Un Llais Cymru am gyngor wedi derbyn atebion i'r ymchwil.
Further enquiries needed to the history of the old bus shelter at Tro Pair, Cllr Rhodri Evans to enquire to the ownership of the shelter and Mr Dai Stephens would be contacted regarding previous work done to the building. Clerk was asked to contact One Voice Wales for advice following receipt of information.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma.
The hedge cutting at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho.
- *The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.*
- Llythyr drafft wedi'u gylchredeg i aelodau'r Cyngor Cymuned ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya. Trafodwyd, chymeradwyd a diolchwyd i'r cynghorydd a baratowyd y drafft, gofynnir am gyfieithiad i'r Saesneg o'r llythyr. Clerc i'w hanfon ymlaen i Mudiadau lleol / Hysbysfyrddau / Caffi & Siop Llangeitho / Dafarn / Garej Stags Head / Cylchlythyr y Gymuned trwy law Mr M Tordoff / Tudalen Facebook 'Friends of Penuwch' a 'Swap Siop Llangeitho' / Y Barcud / Caron360 / BBC Cymru / Cambrian News
A draft paper regarding the 20mph signs has been circulated in the member of the Community Council. The contents were discussed and ratified and after translation was to be distributed to Local Organisations / Noticeboards / Caffi & Siop Llangeitho / Pub / Stags Head Garage / Local Newsletter via Mr M Tordoff / Facebook Page 'Friends of Penuwch' & 'Swap Siop Llangeitho' / Y Barcud / Caron360 / BBC Cymru / Cambrian News
- Twll yn y ffordd o dan Aeron View, Llangeitho dal heb ei lenwi.
Pothole under Aeron View, Llangeitho not repaired.
- Sweeper wedi bod yn y gymuned.
Sweeper had visited the area.
- Twll ar bwys Johnson, Gilrhyg, Llangeitho dal heb ei lenwi.
Hole near Johnson, Cilrhyg, Llangeitho not repaired.
- Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb o'r Ymgynghoriad o'r Comisiwn Ffiniau hyd yma.

No response has been received from the Boundaries Commission.

- Drain ar waelod rhiw Gaerlwyd dal ddim wedi'u gwacau.
The drain at the bottom of Gaerlwyd hill hadn't been emptied.

Llyn Fanod

Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth y Cyfreithiwr Mr Edward Harris, yn cadarnhau'r canlynol:-

Letter received from Mr Edwards Harris Solicitors, confirm the information below:-

'It would seem from all the evidence now researched that the legal title has never been vested into the name of the Community Council or its predecessors, the Parish Council or Parish meeting'.

'I have spoken to the officers of the University and it is a matter that the Community Council will simply have to be patient for all matters to be fully considered by the University in and after consultation with its beneficiaries and as mentioned, the lake is not a standalone asset, but there are other such lands which the University must consider'

Clerc i ysgrifennu at y cyfreithiwr eto yn gofyn y canlynol:

Clerk to write to the solicitors requesting clarification of matters listed below:

1. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam mae dim ond rhan Blaenpennal o'r Llyn gafodd ei gwerthu i'r Wildlife Trust yn yr wythdegau a dim y Llyn i gyd?
If the University are the owners, why was it that only the Blaenpennal part of the lake was sold to the Wildlife Trust in the 1980s and not the whole lake?
2. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam na ddangoson nhw dim diddordeb yn atal y Llyn cael ei gwerthu pan oedd y ddaear o amgylch ar sêl Penlon tair blynedd yn ôl? Buon yn cysylltu gyda'r Prifysgol adeg ni ond doedden nhw ddim am wybod, ac heblaw bod rhai o ni wedi aros lan dros y Llyn, mi fyddai wedi cael ei gwerthu gyda'r tir.
If the University are the owners, why didn't they show any interest in preventing the sale of the lake during the sale of Penlon land three years ago? We contacted the university at the time, and they weren't aware of the sale, and if we hadn't raised the matter at the time the lake would have been sold with the land.
3. Os mae'r Prifysgol yw perchnogion, beth yw ei bwriad tuag at y Llyn, e.e. rheolaeth o'r Llyn, diogelwch o'r cyhoedd fydd yn mynd at y Llyn, bywyd natur ar y Llyn, gweithio gyda'r Wildlife Trust ac yn y blaen.
If the university are the owners, what are their intentions regarding the future of the lake, eg – management of the lake, health and safety of the public visiting the lake, wildlife at the lake, working with the Wildlife Trust etc.

Cadw'r eitem yma ar agenda Cyfarfodydd Cyngor Cymuned

Keep matter of the agenda of the Community Council Meetings

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Hydref & Tachwedd 2023) £246.22 *Clerk Salary for October & November 2023*
- Paul Tofft £120
- Dwr Cymru £6.55
- Brian Bulman £260
- Torch Sul y Cofio £25.00 *RBI Wreath*
- Praesept (3) wedi'u dderbyn £1,833.33 *Precept (3)*

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Sarah Evans Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Myrddin James

Praesept 2024-25 Precept

Trafodwyd y praesept am 2024-25 a chytunwyd i'w gadw ar £5,500, cynigwyd gan Cyng Sarah Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.

The Precept for 2024-25 was discussed and it was agreed to keep it at £5,500, Proposer – Cllr Sarah Evans / Seconder Cllr Gwenfair Owen

Gohebiaeth/Correspondence

- Clerc wedi cadarnhau derbyn e-bost Nigel Bird am yr hen gysgodfan bws yn Tro Pair, gan ymddiheuro i beidio ag ymateb o dan yr amgylchiadau trist y Clerc. Clerc i anfon llythyr i gadarnhau ein bod yn ymchwilio mewn i gyngor cyfreithiol.

Clerk confirmed receipt of an email from Niger Bird regarding the old bus shelter at Tro Pair, and apologised for not responding due to recent sad event. The Clerk has replied to confirm that the Community Council is seeking legal advice.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Cylchredwyd drwy e-bost manylion am grantiau sydd ar gael gan y Cyngor Sir Ceredigion, oddi wrth Matthew Roebuck, Swyddog Gweithgarwch Corfforol a Chwarae Cymunedol / *Community Physical Activity & Play Officer*.
Details of grant available through Cyngor Sir Ceredigion from Matthew Roebuck, Community Physical Activity & Play Officer was circulated by email.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

- Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Mynychodd Cyng Daniel Thomas, diwrnod agored ddiddorol ym Mhencadlys yr Heddlu yn ddiweddar.
Cllr Daniel Thomas attended an interesting open day at the HQ of Dyfed Powys Police recently.
- Soniwyd nad oedd dim wedi'u wneud am y coniau a'r wal oedd wedi cael damwain yn Glanwern Penuwch nifer o fisoedd nôl.
It was noted that nothing had been done about the cones and wall following an accident at Glanwern Penuwch a few months ago.
- Angen y sweeper ar hyd y ffyrdd sydd yn mynd lan i Benuwch.
Request for the sweeper to attend to roads leading out of Penuwch.
- Croeso i aelodau'r Gymuned gasglu y Celyn a fu'n cael ei drimio o'r goeden yn y parc ar fore dydd Sul.
Member of the community could take cut holly from the park on Sunday morning.
- Nodwyd fod y paneli gwybodaeth am y pentre wedi dechrau edrych yn ddyran, gofynnir a ellir glustnodi arian allan o'r flwyddyn ariannol nesaf i wella ei cyflwr neu adnewyddu.
It was noted that information boards around the village were deteriorating, and it was suggested to allocate monies for refurbishment during next year.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Cyng Beryl Evans a Cyng Myrddin James yn eu llwyddiant yn y Ffair Aeaf.
Cllr Beryl Evans and Cllr Myrddin James were congratulated following their success at the Winter Fair.
- Soniodd y Cyng Daniel Thomas am y darganfyddiad o'r arteffactau a ddaeth i'r amlwg o'r oes Efydd yn yr ardal. Mae hyn yn newyddion cyffrous iawn i'r ardal.
Cllr Daniel Thomas noted the importance of the Bronze Age find in the area. This is very exciting news.
- Cytunwyd fod diddordeb efo'r Cyngor Cymuned i gefnogi y cais a wnaed gan Ffrindiau Amgueddfa Ceredigion o greu panel gwybodaeth am hanes Annie Cwrt Mawr ac eraill yn mynd i'r Amerig efo'r deiseb heddwch.
It was agreed that the Community Council support an application from the Friends of Ceredigion Museum to create an information board on the history of Annie Cwrt Mawr and others who took the Peace Petition to the USA
- Gan fod y cwmni Bysiau James wedi gorffen masnachu o Langeitho bellach, gofynnir a yw hyn yn mynd i greu problem o graeanu allan o Langeitho yn y dyfodol? Angen i Cyng Rhodri Evans gofyn Cyngor y Cyngor Sir.
As James Brothers had ceased trading from their garage in Llangeitho, concern was raised if this would affect gritting in Llangeitho in the future. Cllr Rhodri Evans to ask the County Council.
- Soniwyd bod y Cabinet Cyngor Sir Ceredigion yn drafod y papur am ail gartrefi yn y sir ar 5ed o Ragfyr.
It was noted that the Cyngor Sir Ceredigion Cabinet would be discussion the paper on second homes on the 5th of December.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Penuwch ar nos Lun 5ed o Chwefror 2024 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at the Chapel Vestry in Penuwch on Monday 5th February 2024 at 8pm.